# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>,

**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- nos Iau, 5ed o Hydref 2023 yn Neuadd Chwilog a drwy 'Zoom', am 6:30 y.h. o flaen y prif gyfarfod.**

***<u>Ar y Pwyllgor</u>***: Y Cynghorwyr Sian Parry (Cadeirydd), Aled Davies, Anwen Jones, Aled Lloyd Evans, Tegid Jones a'r Clerc.

***<u>Ymddiheuriadau</u>***. Cynghorydd Sion Aled Jones.

Ar y rhaglen.

1. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 6ed o Hydref 2022.

2. **<u>Cyllideb 2023/24</u>** a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad manwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael ei rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod) ac fe'i cymharwyd gyda'r gyllideb a bennwyd. Fe gedwir golwg manwl arnynt bob mis drwy anfon ebost at y Cynghorwyr o flaen cyfarfod a bod y Cadeirydd wedyn yn llofnodi ei bod yn gywir.
Fe wnaeth y Cadeirydd lofnodi'r ffurflen 'excel'oedd yn dangos:-
- Y gyllideb arian /gwariant hyd at 31.03.2024
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2024-2025

Mae rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2024, a beth fydd y sefyllfa flwyddyn nesaf.

Ar 05.10.2023 roedd y symiau isod yn y 2 cyfrif:-

| **Cyfrifon** | **£** | |
|---|---:|---|
| Cyfrif cyfredol | 23,345.19 | Cynnwys Lightsource a Grant Cronfa Park-Jones(£2000.00) |
| Cyfrif cadw | 4,635.17 | |
| Cyfanswm | 27,980.36 | |

3. **<u>Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.</u>**
Mae ambell beth angen ei talu, ond mae'r symiau i gyd i'w gweld ar y rhestr rhagolwg.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd, tua £417.80. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2024, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. **<u>Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2024-2025:-</u>**
- Cof Eifionydd – angen gwneud ymholiadau.
- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn.
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern – angen gwneud hyn yn flynyddol.
- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud yno ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth, a'r Cadeirydd am fynd yno i weld.

- Wifi y 3 lleoliad bob blwyddyn.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £120.00 bob blwyddyn.
- Cae chwarae Llangybi – cynnal a chadw/cais am grant – peintio yr offer oherwydd ei bod yn dechrau rhydu.
- Cyfrannu'n ariannol at gadw lleoedd cynnes yn y 3 ardal, fel 'Llefydd cynnes' a darparu pryd o fwyd am ddim. Cytuno i gyfrannu £500.00 yr un i Chwilog, Pencaenewydd a Llanystumdwy, er mwyn cynnal 5 ohonynt yn ystod y gaeaf yn y tri safle.
- Holi i weld a fyddai'n bosib plannu blodau mewn ambell i le i harddu'r ardal.

5. **Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol**, fferm solar Gelli Gron, Llangybi.
Derbyniwyd £4,719.95 ar 10.01.2023, a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn eto eleni.

Bydd angen talu am y Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Chapel Pencaenewydd - heb gael biliau ganddynt eto, a bydd rhain yn cael ei talu o'r swm sydd yn cael ei dderbyn gan Lightsource cyn diwedd Mawrth 2024. Llynedd roedd y ffigwr yma'n £1253.64.

6**. Dewis Praesept 2024–2025** – fe godwyd y ffigwr i £19,000.00 eleni, ac fe gynigiwyd ei godi i £20,000.00 am y flwyddyn ariannol 2024-2025, sef codiad sydd yn is na chwyddiant, oherwydd fod costau yn codi.

Bydd angen gwneud **penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn ar 02.11.2023, neu fis Rhagfyr er mwyn i'r cynghorwyr fod yn gytun.**

7. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2024.**
Llynedd talwyd £8,903.64 o'r cyfrif cyfredol, a chyfrif Lightsource (roedd hyn yn cynnwys cyfraniad Wifi).
Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, ond bydd angen gwneud penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn fis Ionawr 2024.

(Uchafswm gwariant yw £9.93 x 1521 o boblogaeth o fewn cymuned Llanystumdwy = £15,103.53)